Fforwm Arfordir Sir Benfro
Swydd-ddisgrifiad a Manyleb y Person

Teitl y swydd:	Rheolwr Prosiect Gwynt arnofiol
Cyflog:	£28k + (yn dibynnu ar brofiad)
Yn atebol i:	Rheolwr Rhaglen MEW
Lleoliad:	Canolfan Ynni'r Môr, Fforwm Arfordir Sir Benfro, 2il Lawr, Pier House, Pier Road, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6TR Rhywfaint o weithio gartref.
Yn gweithio gyda:	Ynni Môr Cymru a Thimau PCF

Cefndir

Wedi'i sefydlu yn 2000, mae Fforwm Arfordir Sir Benfro (PCF) yn Gwmni Buddiannau Cymunedol sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n gweithio i wella amgylcheddau'r arfordir a'r môr ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Fel partneriaeth arfordirol mae PCF wedi datblygu amrywiaeth o brosiectau cydweithredol, a ystyrir yn aml fel arfer gorau cynaliadwy, gan gynnwys Cod Morol Sir Benfro a Siarter Awyr Agored, Mapio Gweithgareddau Cymru, Ynni Môr Cymru (MEW) a META.

Bydd y rôl gyffrous hon yn canolbwyntio ar yr agweddau gwynt arnofiol ar y môr ar ein rhaglen ynni'r môr sy'n ymestyn ar draws Cymru ac yn rhyngwynebu â rhanbarthau allweddol Môr Celtaidd Iwerddon a'r De-orllewin. Yn bennaf, chi fydd yn gyfrifol am arwain yr ymrwymiadau cyflenwi gwynt arnofiol, yn ogystal â sicrhau bod y cyflawni'n cyd-fynd orau â'r rhaglen MEW ehangach.

Pwrpas y Swydd

Mae Ynni Môr Cymru (MEW) yn rhaglen PCF hirsefydlog, sy'n dod â datblygwyr technoleg, y gadwyn gyflenwi, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus ynghyd i sefydlu Cymru fel arweinydd byd-eang mewn cynhyrchu ynni'r môr cynaliadwy.

Gweledigaeth MEW yw creu diwydiant ynni adnewyddadwy ar y môr ffyniannus ac amrywiol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, gan wneud cyfraniad sylweddol at economi carbon isel. Gwnawn hyn trwy gefnogi'r sector, cymryd rhan mewn prosiectau ac mewn rôl ymgynghorol. Mae cylch gwaith MEW yn cynnwys technolegau llif llanw, tonnau, amrediad llanw a gwynt ar y môr (FLOW) fel y bo'r angen a diddordebau prosiect.

Mae'r rôl hon yn gyfrifol am sicrhau bod maes blaenoriaeth FLOW y rhaglen MEW yn cael ei gyflawni. O ystyried y cyfleoedd cynyddol sy'n gysylltiedig â FLOW yn y Môr Celtaidd bydd y rôl hon yn:

- Darparu rhyngwyneb pwrpasol i dechnoleg FLOW ac aelodau datblygwr safle MEW.
- Cefnogi Cynghrair Datblygwyr y Môr Celtaidd (CSDA), hyrwyddo'r cyfle yn y Môr Celtaidd ar gyfer twf ynni gwynt arnofiol ar y môr i gefnogi ymgyrch y DU tuag at Sero Net, ymgysylltu gwleidyddol a sector ac ysgogi cydweithredu traws-sector a thrawsffiniol.
- Cefnogi Clwstwr y Môr Celtaidd (CSC). Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gydweithio â rhanbarth y De-orllewin i arwain marchnad ar gyfer gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd drwy hyrwyddo'r cyfle i weithredwyr cadwyni cyflenwi a seilwaith.
- Hwyluso cydweithio/datblygu cyfleoedd ehangach.

Prif Gyfrifoldebau

Fel rhan o dîm PCF ac yn adrodd i Reolwr Rhaglen MEW, byddwch yn gyfrifol am gyflawniadau FLOW rhaglen Ynni Môr Cymru. Bydd y tasgau'n cynnwys y canlynol:

- Cyflwyno ysgrifenyddiaeth CSDA a thasgau sy'n codi, darparu gwasanaethau aelodaeth i aelodau MEW FLOW a rhyngwynebu â phrosiectau strategol eraill sydd ar y gweill i edrych ar y cyfle i'r Môr Celtaidd.
- Mewnbwn a chyswllt â Chlwstwr y Môr Celtaidd a'i bartneriaid ac aelodau allweddol, trwy weithgorau sy'n ymdrin â phynciau fel creu marchnad, cadwyn gyflenwi, seilwaith, arloesi, sgiliau a buddsoddiad.
- Datblygu strategaeth a nodi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau cydweithredol, gweithgareddau ymchwil a datblygu a thwf prosiectau o ran FLOW ac unrhyw ryngwynebau â buddiannau ehangach y sector MEW.
- Cydgysylltu'n agos â sefydliadau ac unigolion megis partneriaid prosiect strategol, cyllidwyr, rhanddeiliaid i sicrhau bod anghenion y sector yn cael eu diwallu (gan gynnwys y sector cyhoeddus, rheoleiddwyr, eNGOs, datblygwyr, cyllidwyr, cadwyn gyflenwi).
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid â gwleidyddion, gweision sifil, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys darparu cyflwyniadau a chadeirio a threfnu cyfarfodydd.
- Rhyngwynebu â Rheolwyr Prosiect MEW eraill i sicrhau cydlyniant ac aliniad ar draws yr holl raglenni ynni adnewyddadwy morol i gyflawni prosiectau yn unol â gofynion ariannu ac yn unol â'r gyllideb.
- Darparu rhyngwyneb misol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gweithgareddau sydd ar y gweill i gefnogi datblygiad FLOW yn y Môr Celtaidd.
- Adolygu gweithgareddau a digwyddiadau sydd ar y gweill i gefnogi'r sector FLOW a thrwy gydweithio â thîm ehangach MEW a CSC creu strategaeth ar gyfer ymgysylltu i barhau i godi proffil y Môr Celtaidd.
- Adolygu gweithgareddau a digwyddiadau sydd ar y gweill i gefnogi'r sector FLOW a thrwy gydweithio â thîm ehangach MEW a CSC creu strategaeth ar gyfer ymgysylltu i barhau i godi proffil y Môr Celtaidd.
- Rhoi cymorth i Grŵp Ynni Strategol Dyfrffordd Aberdaugleddau; darparu gwasanaethau cadeirydd ac ysgrifenyddiaeth sy'n ceisio atebion i dagfeydd cysylltiad grid a heriau glanfeydd sy'n gysylltiedig â phrosiectau'r Môr Celtaidd.
- Darparu gwybodaeth i gefnogi hawliadau grant i'r Rheolwr Cyllid.
- Cefnogi gwaith prosiect ehangach pan fo angen.

Manyleb y Person

Hanfodol:

- Profiad perthnasol mewn prosiectau ar y môr neu forol
- Wedi cymhwyso hyd at lefel gradd mewn disgyblaeth gysylltiedig
- Dealltwriaeth strategol o'r sector ynni'r môr
- Cyfathrebwr rhagorol, sy'n gallu cyflwyno i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd
- Profiad rheoli prosiect
- Profiad o ymgysylltu ag ystod o wahanol randdeiliaid, gan gynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd
- Sgiliau datrys problemau a brwdfrydedd i ddod o hyd i atebion
- Rhagweithiol a hunan-gymhellol a'r gallu i weithio gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth o fewn terfynau amser
- Sgiliau TG da (gan gynnwys rhyngrwyd, prosesu geiriau, pecynnau taenlenni a chronfa ddata fel Excel)
- Trwydded yrru gyfredol/cerbyd eich hun

Dymunol:

- Diddordeb cryf mewn cynaliadwyedd ac ynni adnewyddadwy
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi Cymreig
- Profiad o brydlesu a thrwyddedu morol
- Cymhwyster mewn Rheoli Prosiectau
- Y gallu i siarad Cymraeg

Rydym yn credu mewn gweithle cynhwysol ac rydym yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned. Felly, os credwch fod gennych yr hyn sydd ei angen, ond nad ydych o reidrwydd yn bodloni pob pwynt ar y swydd-ddisgrifiad, gwnewch gais o hyd.

Mae'r gallu i deithio i gyfarfodydd/digwyddiadau/ymweliadau safle ac ati yn nodwedd angenrheidiol a rheolaidd o'r swydd hon. Bydd angen cludiant eich hun. Bydd y swydd yn cynnwys gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd. Gall swydd-ddisgrifiadau a manylebau person newid o bryd i'w gilydd er mwyn parhau i fod yn unol ag anghenion busnes. Mae PCF yn defnyddio polisi gwaith amser hyblyg/toil..

Diweddarwydd fis Chwefror 2022